



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Cod Ymarfer er Lles Da Byw: Defaid



Mawrth 2010



ISBN 978 0 7504 5163 5

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010

CMK-22-04-045(278)

E0160910

Nodyn

Cafodd y Cod hwn, a'i baragraffau 1 i 159, ei baratoi ar ôl ymgynghori arno a'i gyhoeddi yn unol ag adrannau 14 ac 16 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 sy'n caniatáu'r Cynulliad Cenedlaethol i gynhyrchu codau ymarfer er lles da byw ac i gyhoeddi'r codau hynny. Yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Gweinidogion Cymru sydd i arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14 ac 15.

Hysbysir y Comisiwn Ewropeaidd am yr argymhellion hyn yn unol â Chyfarwyddeb 98/34/EC (1998 O.J L204)

Cynnwys

Rhagair	Tudalen 3
Cyflwyniad	Tudalen 6, paragraffau 1-6
Adran 1 - Argymhellion ar gyfer defaid	
Stocmonaeth	Tudalen 7, paragraffau 7-13
Bwyd a Dŵr	Tudalen 8, paragraffau 14-20
Iechyd	
Cyffredinol	Tudalen 10, paragraffau 21-25
Archwilio	Tudalen 11, paragraff 26
Sgorio cyflwr	Tudalen 11, paragraff 27
Cloffni	Tudalen 12, paragraffau 28-32
Parasitiaid allanol	Tudalen 12, paragraff 33-35
Parasitiaid mewnol	Tudalen 13, paragraff 36
Defaid sâl ac anafus	Tudalen 13, paragraffau 37-42
Cyfarpar dosio a brechu	Tudalen 13, paragraffau 43-46
Clefydau hysbysadwy	Tudalen 15, paragraff 47
Rheolaeth	
Cyffredinol	Tudalen 16, paragraffau 48 & 49
Adnabod	Tudalen 16, paragraffau 50 & 51
Marcio	Tudalen 16, paragraffau 52-55
Trafod a thrin	Tudalen 17, paragraffau 56-59
Cludiant	Tudalen 17, paragraff 60
Ffensys a pherthi/gwrychoedd	Tudalen 18, paragraffau 61 & 62
Cneifio	Tudalen 18, paragraffau 63-68

Adran 2 - Argymhellion penodol ar gyfer defaid

Anffurfio

Sbaddu

Tudalen 20, paragraffau 69-74

Tocio/Torri cynffonau

Tudalen 21, paragraffau 75-78

Parlysu â thrydan ac ati.

Tudalen 21, paragraff 79

Digornio neu ddadimpio

Tudalen 22, paragraffau 80

Dulliau Bridio

Tudalen 23, paragraffau 81-83

Frwythloni laparosgopig

Tudalen 23, paragraffau 84 and 85

Dafaid cyfoen ac wyna

Tudalen 24, paragraffau 86-91

Tudalen 25, paragraffau 92-100

Rheoli Mamogiaid Mynydd ar Borfa Arw

Tudalen 26, paragraffau 101-107

Magu wŷn swci/llywaeth

Tudalen 26, paragraffau 108-117

Adeiladau

Cyffredinol

Tudalen 28, paragraffau 118-122

Awyru

Tudalen 29, paragraff 123

Adeiladau a chyfarpar

Tudalen 29, paragraff 124-133

Goleuo

Tudalen 30, paragraffau 134-135

Gofod a ganiateir

Tudalen 31, paragraff 136

Cyfarpar a gwasanaethau mecanyddol

Tudalen 32, paragraffau 137-139

Cynllun wrth gefn

Tudalen 32, paragraff 140

Tân ac argyfyngau eraill

Tudalen 32, paragraffau 141-144

Peryglon

Tudalen 33, paragraffau 145-149

Defaid Godro

Rheolaeth

Tudalen 34, paragraffau 150-154

Dulliau godro

Tudalen 34, paragraffau 155-157

Parlwr a chyfarpar godro

Tudalen 35, paragraffau 158-159

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r cod; mae'n esbonio yn hytrach rôl y cod a'r ystyriaethau eang y cafodd eu seilio arnynt. Nid yw'r testun cyfreithiol yn y blychau llwyd drwy'r ddogfen hon yn rhan o'r cod chwaith ond mae'n dangos y safbwynt cyfreithiol. Y gyfraith fel y mae ar ddyddiad cyhoeddi neu argraffu'r cod hwn yw'r testun yn y blychau (trowch at y cefn i gael yr wybodaeth hon). Dylech fod yn ymwybodol y gall unrhyw ofynion cyfreithiol a ddyfynnir fan hyn newid - dylech gadarnhau eu bod yn ddatganiadau cywir o'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd.

Mae rheoliad 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) yn darparu bod:-

- (1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir:-
 - (a) peidio â gofalu am yr anifail onid yw'n gyfarwydd â'r cod ymarfer perthnasol a bod y cod ar gael iddo tra ei fod yn gofalu am yr anifail; a
 - (b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw person a gyflogir ganddo, neu a gymerir i weithio ganddo, yn gofalu am yr anifail oni bai bod y person arall hwnnw:-
 - (i) yn gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol;
 - (ii) bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a
 - (iii) ei fod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y cod hwnnw.
- (2) Yn yr adran hon, ystyr "cod ymarfer perthnasol" ("relevant code of practice") yw cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu god ymarfer statudol a gyhoeddwyd o dan adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpapiaethau Amrywiol) 1968 mewn perthynas â'r rhywogaeth benodol o anifeiliaid a ffermir y mae'r person yn gofalu amdanynt.

Mae person yn cyflawni trosedd pe bai gweithred ganddo neu fethiant ganddo i weithredu yn peri bod anifail yn dioddef pe bai'n gwybod neu y dylai'n rhesymol fod yn gwybod y byddai ei weithred neu ei fethiant i weithredu wedi cael yr effaith honno neu y byddai'n debygol o fod wedi cael yr effaith honno. Er nad yw torri un o ddarpapiaethau'r cod yn dramgwydd ynddo'i hun, fe all er hynny gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth sy'n tueddu i gadarnhau bod unrhyw un a gyhuddir o'r tramgwydd o beri poen neu ddioddefaint diangen yn euog o dan y Ddeddf (Adran 14 (4)).

Mae Rheoliad 4(1) o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (OS. Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan bod yn rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid a ffermir gymryd camau rhesymol i sicrhau y cedwir yr anifeiliaid mewn amodau sy'n cydymffurfio ag Atodlen 1.

Mae Rheoliad 4(2) o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (OS. Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan:-

- wrth benderfynu a yw'r amodau y mae'r anifeiliaid yn cael eu magu neu eu cadw ynddynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 1, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am anifeiliaid a ffermir roi sylw i'w rhywogaeth, y graddau y maent wedi datblygu, ymaddasu a dofi, ac i'w anghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol ag arfer da a gwybodaeth wyddonol.

Mae Rheoliad 7 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (OS. Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan:-

- bod person yn cyflawni tramgwydd os yw, heb awdurdod neu esgus cyfreithlon:-
(a) yn torri neu'n peidio â chydymffurfio â dyletswydd yn rheoliad 4, 5 neu 6.

Mae'r Cod yn anelu at annog pawb sy'n gofalu am anifeiliaid fferm i arfer y safonau hwsmona uchaf. Heb stocmonaeth dda, mae'n amhosibl diogelu lles anifeiliaid yn ddigonol. Bydd y cod hwn yn helpu ceidwad y stoc i fodloni'r safonau lles angenrheidiol.

Ystyrir lles defaid o fewn fframwaith a luniwyd gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm. Y 'Pum Rhyddid' yw'r enw ar y fframwaith hwn. Mae'r 5 Rhyddid yn sylfaen resymegol ar gyfer asesu lles o fewn unrhyw system hwsmona, ynghyd â'r camau sy'n angenrheidiol i ddiogelu lles anifeiliaid o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithlon.

Dyma'r Pum Rhyddid:-

1. **RHYDDID RHAG NEWYN A SYCHED**

- drwy allu mynd yn hwylus at ddŵr ffres a chael deiet i gynnal iechyd ac egni.

2. **RHYDDID RHAG ANGHYSUR**

- drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus.

3. **RHYDDID RHAG POEN, ANAF NEU GLEFYD**

- drwy eu hatal neu drwy eu diagnosio a'u trin yn gyflym.

4. **RHYDDID I YMDDWYN YN NATURIOL**

- drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid o'r un fath.

5. **RHYDDID RHAG OFN A DIODDEFAINT**

- drwy sicrhau amodau a thriniaeth sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

Wrth gydnabod y pum rhyddid, dylai'r rhai sy'n gofalu am dda byw ddangos y canlynol:-

- cynllunio a rheoli ystyriol a chyfrifol;
- stocmonaeth fedrus, wybodus a chydwybodol;
- dylunio amgylcheddol priodol (er enghraifft, o'r system hwsmona);
- trafod a chludo'r anifeiliaid yn ystyriol; a
- chigydda di-boen.

Wrth ddilyn yr argymhellion sydd yn y Cod hwn, bydd yn eich helpu i gwrdd â'r gofynion trawsgydymffurfio o dan Gynllun y Taliad Sengl.

Cyhoeddir y Cod hwn gan Weinidogion Cymru ac mae'n gymwys yng Nghymru yn unig. Mae'n disodli (hefyd o ran Cymru) y rhan honno o'r Cod presennol a gyhoeddwyd yn 2005.

CYHOEDDwyd Y COD LLES HWN AR 26 Mawrth 2010.

Cyflwyniad

1. Yn y Cod hwn (sy'n berthnasol yng Nghymru yn unig) mae'r gair "defaid" yn cyfeirio at bob stoc o deulu'r ddafad, ac ystyrir bod anifail o dan 6-12 mis oed yn oen. Bugail yw'r person sy'n gyfrifol am edrych ar ôl y defaid.
2. Mae'r argymhellion yn gymwys i ddefaid o dan bob system hwsmonaeth. Bydd dilyn yr argymhellion yn eich helpu i ddiogelu lles eich defaid.
3. Dylai nifer a math y defaid a gedwir, y lefel stocio, a'r gofod sydd ar gael iddynt mewn adeilad, ddibynnu ar ba mor addas yw'r amgylchedd, maint y fferm, cymhwysedd y bugail a'r amser sydd ganddo i wneud ei ddyletswyddau. Mae stocmonaeth dda yn holl bwysig ym mhob system cynhyrchu defaid.
4. Mae safonau cyfreithiol ychwanegol ar gyfer cadw defaid yn organig. Er hynny, nid oes dim yn y safonau hynny sy'n effeithio ar gyfrifoldebau cyfreithiol ffermwyr organig i ofalu am les eu hanifeiliaid. Dylai unrhyw faterion sy'n ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro â safonau organig gael eu trafod gyda'ch corff ardystio organig.
5. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch lles anifeiliaid yn gymwys i berchnogion yn ogystal ag i unrhyw un sy'n gofalu am eu defaid ar eu rhan, lle bynnag bo'r defaid. Gall contract ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â hyn yn deall yn glir beth yw eu cyfrifoldebau am les anifeiliaid. Er hynny, bydd y rhwymedigaethau cyfreithiol yn dal i fod yn gymwys.
6. Os ystyrir newid brîd neu deip, yn arbennig os ydych yn ffermio o dan amodau anodd ar y bryniau, ni ddylid eu cyfnewid ac eithrio am frîd neu groesfrid o ddefaid sy'n addas i'r lleoliad. Er enghraifft, ar fferm fynydd dylai'r defaid fod yn wydn ac o deip sy'n gallu gwrthsefyll tywydd eithafol heb ddiodef.

Adran 1 - Argymhellion ar gyfer defaid

Stocmonaeth

7. Y bugail yw'r dylanwad pwysicaf ar les unrhyw ddiadell a dylai'r bugail ddatblygu a gweithredu trefn effeithiol ar gyfer rhoi gofal di-dor.
8. Cyn i unrhyw fugail gael cyfrifoldeb am ddiadell dylai wybod am anghenion lles ei ddefaid a dylai allu eu diogelu o dan bob amod y gellir eu rhagweld. Mae'n rhaid ennill sgiliau stocmona penodol, y gellir eu datblygu trwy weithio ar y fferm, trwy weithio gyda pherson profiadol, neu drwy ddilyn cwrs a gynigir gan sefydliad hyfforddi addas. Lle bynnag y bo modd, dylai'r hyfforddiant arwain at gymhwysedd ffurfiol.
9. Dylai bugeiliaid adnabod arwyddion defaid iach. Mae'r arwyddion hyn yn cynnwys bywiogrwydd cyffredinol, y gallu i symud yn rhwydd, bwyta actif, cnoi cil a bod heb unrhyw gloffni, clwyfau, crawniadau neu anafiadau gweladwy.
10. Dylai'r bugail gadw golwg bob amser am arwyddion o afiechyd mewn defaid, sy'n cynnwys: llesgedd, osgo ac ymddygiad anarferol, cloffni, sgwrio, dim cnoi cil, peswch neu chwythu'n barhaus, crafu a rhwbio'n aml, dirywiad cyflym yng nghyflwr y corff, colli gwlân yn ormodol, gostyngiad sydyn yn eu llaeth, ac mewn rhai amgylchiadau, cilio oddi wrth weddill y ddiadell.
11. Mae gallu'r bugail neu'r bugeiliaid sy'n gofalu am y defaid yn ffactor bwysig o ran penderfynu maint y ddiadell. Ni ddylid cynyddu maint y ddiadell, na sefydlu uned, oni bai bod gan y bugail y sgiliau angenrheidiol i ddiogelu am les pob anifail sydd dan ei ofal.
12. Mae'n bwysig bod y ffermwr yn sicrhau bod digon o amser ar gael yn ystod trefn waith arferol y bugail i archwilio'r ddiadell yn briodol ac i gymryd unrhyw gamau adferol angenrheidiol.
13. Efallai bydd angen cael help ychwanegol megis contractwyr cymwys a phrofiadol i helpu yn ystod cyfnodau prysur fel tymor wyna, cneifio, dipio a thriniaethau eraill i atal clefydau; neu pan nad yw'r staff rheolaidd ar gael oherwydd gwyliau neu salwch.

Bwyd a Dŵr

Mae Atodlen 1, paragraffau 22-27) o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)), yn datgan:-

Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachusol sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn cyflenwad digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i ddiwallu eu hanghenion maethol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.

- Rhaid peidio â darparu i anifeiliaid fwyd neu hylif sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a allai beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.
- Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fo milfeddyg wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.
- Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad addas o ddŵr a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu ei angen i yfed digon o hylifau trwy ddulliau eraill.
- Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dŵr ac effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.
- Ni chaniateir rhoi i anifeiliaid unrhyw sylwedd arall, ac eithrio rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffylactig neu at ddibenion triniaeth sŏotechnegol, oni ddangoswyd mewn astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu trwy ymarfer sefydledig nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

14. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod defaid yn gallu mynd at ddigon o fwyd addas a digon o ddŵr glân, ffres bob dydd. Yn ddelfrydol, dylai dŵr fod ar gael bob amser ac yn arbennig yn ystod y cyfnod llaetha. Nid yw'n dderbyniol dibynnu ar y dŵr sydd mewn bwydydd, fel gwreiddiau.

15. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod deiet defaid yn ddigonol bob amser i gynnal iechyd a bywiogrwydd y ddafad. Dylid osgoi newidiadau sydyn o ran y math o fwyd a faint o fwyd a roddir.

16. Dylai defaid gael bwyd ffres, a dylai unrhyw fwyd hen neu fwyd sydd wedi ei halogi gael ei symud o'r cafnau cyn ychwanegu mwy. Dylai'r bwyd fod yn dda i'w fwyta ac o ansawdd da. Mae'n arbennig o bwysig cael gwared ar silwair, sydd wedi dirywio wrth gael ei gadw neu sydd wedi dirywio yn y cafn bwyd.

17. Dylai systemau sy'n cynnwys deiet ag iddo gyfran uchel o rawn gael eu cyflwyno'n raddol. Yn ystod y cyfnod cyflwyno dylid rhoi digon o frasfwyd neu ddwysfwyd addas sy'n cynnwys digon o ffibr. Dylid gofalu nad yw defaid unigol yn cael gorfwyta trwy sicrhau bod digon o le ar gael i'r ddiadell wrth y cafn. Mewn systemau o'r fath, dylid cynllunio cymysgedd o fwynau, yn arbennig i osgoi problemau dŵr yn yr anifeiliaid gwryw.

18. Gall rhai sylweddau, yn arbennig copr, fod yn niweidiol i ddefaid. Dylid osgoi bwyd cyfansawdd neu fwynau sydd wedi cael eu paratoi ar gyfer anifeiliaid eraill, oni ellir asesu bod y cyfansoddiad yn addas i ddefaid. Dylai bugeiliaid fod yn ymwybodol bod rhai bridiau yn fwy tueddol nag eraill o fod yn sensitif i gopr.

19. Dylai ffermwyr defaid a bugeiliaid roi ystyriaeth i gyflwr dannedd y ddiadell wrth ddifa. Defaid gyda dannedd gwael ddylai gael eu difa. Os bydd y defaid yn cael eu cadw dylid darparu bwyd iddynt y gallant ei fwyta heb anhawster a dylid monitro cyflwr eu cyrff yn ofalus.

20. Dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw i sicrhau bod cyflenwadau digonol o fwyd a dŵr addas ar gael i ddefaid mewn argyfyngau, megis stormydd difrifol yn y gaeaf neu sychder yn yr haf.

Iechyd

Cyffredinol

Mae'n ofynnol yn ôl Atodlen 1, paragraff 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) bod:-

- rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle mae eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio unwaith y dydd o leiaf, i wirio eu bod mewn cyflwr o lesiant; a
- rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle nad yw eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio ar ysbeidiau digonol i osgoi unrhyw ddiodefaint lesiant.

Mae Atodlen 1, paragraff 5 yn datgan y bydd unrhyw anifail sy'n ymddangos yn sâl neu wedi'u hanafu:-

- (a) yn cael y gofal priodol yn ddi-oed; a
- (b) pan nad ydynt yn ymateb i'r cyfryw ofal, rhaid cael cyngor milfeddyg cyn gynted ag y bo modd.

Mae Atodlen 1, paragraff 7 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan bod rhaid cadw cofnod o:-

- (a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roddir i anifeiliaid; a
- (b) o'r nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o'r anifeiliaid a gyflawnir yn unol â'r darpariaethau yn Atodlen 1, paragraff 2.

Bydd y cofnod y cyfeirir ato yn Atodlen 1, paragraff 7 yn cael ei gadw am gyfnod o leiaf 3 blynedd o'r dyddiad y rhoddwyd y driniaeth feddygol, neu ddyddiad yr arolygiad, pa un bynnag sy'n gymwys. Bydd y cofnod ar gael i berson awdurdodedig wrth gynnal arolygiad neu pan fydd person o'r fath yn gofyn amdano.

21. Dylai bugeiliaid fod yn brofiadol neu gael eu hyfforddi i fod yn gymwys ar draws yr ystod o sgiliau iechyd a lles a ddylai gynnwys brechu, dipio, atal a thrin cloffni mewn defaid gan gynnwys defaid sydd â CODD (Contagious Ovine Digital Dermatitis), atal a thrin parasitiaid mewanol ac allanol, gan gynnwys y clafr, llau a chynrhon, docio cynffonau a sbaddu. Mae'n arbennig o bwysig bod gan fugeiliaid y sgiliau sydd eu hangen adeg wyna.

22. Dylid paratoi Cynllun Iechyd Anifeiliaid ysgrifenedig ar gyfer pob diadell. Dylai'r cynllun adlewyrchu'r cylch cynhyrchu blynyddol, dylid ei ddatblygu gyda chyngor technegol a milfeddygol priodol a dylid ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn. Dylai'r rhaglen gynnwys digon o gofnodion i asesu cynnyrch sylfaenol y ddiadell a dylai nodi, fan leiaf, y polisi brechu a'i amseriad, rheoli parasitiaid allanol

a mewnl a gofalu am draed y defaid. Dylai rheoli'r porfeydd fod yn rhan annatod o'r drefn ar gyfer rheoli clefydau - yn arbennig yn achos parasitiaid allanol a chlwy'r traed/lid/CODD lle mae'n well osgoi dibynnu'n llwyr ar gyffuriau.

23. Dylid rhoi sylw arbennig i atal clefydau. Mae'n bosib y gall pob dafad, gan gynnwys hyrddod, sy'n cael eu cyflwyno i ddiadell ddod â chlefydau gyda nhw, a gallant ledaenu'n rhwydd. Argymhellir eich bod yn cadw defaid o'r fath ar wahân am o leiaf 4 wythnos a'u harchwilio, a'u trin lle bo'r angen, am glefydau megis y clafr, clwy'r traed/CODD a pharasitiaid mewnl. Argymhellir eich bod yn cadw mamogiaid sydd newydd gael eu cyflwyno i'r ddiadell ar wahân oddeutu 4 wythnos cyn wyna a'u hwyna ar wahân. Gorau oll os gellir gwneud hynny ar ôl i'r brif ddiadell wyna, rhag cyflwyno heintiau erthylu ar yr adeg hon.

24. Cyn cyflwyno hyrddod i ddiadell adeg hwrdda, dylid archwilio ffitrwydd y mamogiaid (yn arbennig cloffni, dannedd, cadeiriau/pysiau a chyflwr eu cyrff) a dylid difa unrhyw famog sy'n is na'r safon ac unrhyw famog sydd wedi dioddef o broblemau cenhedlu yn y gorffennol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i anifeiliaid sy'n byw o dan amodau caled. Hefyd dylid archwilio hyrddod am eu haddasrwydd i fridio.

25. Rhaid cadw cofnod (gweler y blwch cyn paragraff 21) am unrhyw driniaeth feddygol a roddir ac o nifer y defaid a'r wryn marw a welir ym mhob archwiliad. Lle bo angen cadw yr un wybodaeth at ddibenion eraill, megis ar gyfer cofnodion meddygol neu ddeddfwriaeth adnabod defaid, bydd y cofnod hwn yn ddigon.

Archwilio

26. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn dibynnu ar iddynt gael eu harchwilio'n rheolaidd. Dylai bugeiliaid archwilio'r ddiadell mor aml ag sy'n addas i'r amgylchiadau. Dylid rhoi sylw arbennig i arwyddion o anaf, gofid, salwch neu bla (er enghraifft y clafr, cynrhon, cloffni a mastitis) er mwyn adnabod y cyflyrau hyn a'u trin ar unwaith. Bydd pa mor aml y dylid eu harchwilio yn dibynnu ar y ffactorau sy'n effeithio ar les defaid ar adegau arbennig, er enghraifft lle maent yn cael eu cadw, tymor wyna, tymor cynrhoni a thywydd garw yn y gaeaf.

Sgorio cyflwr

27. Dylai ffermwyr defaid a bugeiliaid wybod y gall cadw sgôr cyflwr gyfrannu'n fawr at hwsmona da. Mae sgorio cyflwr y corff yn dechneg hawdd ei dysgu ac yn asesu'r adnoddau sydd wrth gefn yng nghorff y ddafad yn gyflym. Mae'r wybodaeth yn helpu'r bugail i ofalu am ei ddefaid at y safonau uchaf a gall atal problem lles rhag datblygu. Mae'n dangos pa anifeiliaid sydd angen gofal arbennig. Er enghraifft, mae sgôr cyflwr o lai na 2 mewn defaid ar dir isel, ac 1.5 mewn defaid ar dir mynydd yn golygu fel arfer bod y ddiadell yn dioddef o reolaeth annigonol a bod angen cymryd camau cadarnhaol i gywiro'r sefyllfa.

Cloffni

28. Mae cloffni mewn unrhyw anifail yn arwydd fel arfer ei fod mewn poen. Cloffni mewn defaid yw un o'r arwyddion mwyaf cyffredin bod yr anifail yn sâl ac yn anghyfforddus. Mae'n amlwg ei fod yn effeithio ar les anifail, yn ogystal ag ar ei berfformiad a'i gynhyrchiant, hyn yn achos defaid yn ogystal â hyrddod. Os oes cloffni difrifol ar ganran sylweddol o'ch defaid, gall hyn fod yn arwydd o safonau lles cyffredinol isel yn y ddiadell.

29. Bydd bugeilio da, gan gynnwys archwilio cyson a thrylwyr ynghyd â'r diagnosis cywir a gweithredu rhaglen addas o atal a thriniaeth, yn helpu i ostwng nifer yr achosion o gloffni.

30. Gall cloffni ddechrau yn y traed neu'r cymalau, ond yn y traed y mae'n dechrau gan amlaf mewn defaid llawndwf. Dylai rhaglen gofal traed y ddiadell fod yn rhan o'r Cynllun Iechyd Anifeiliaid ysgrifenedig y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 22. Bydd rhaglen effeithiol i ofalu am y traed yn cynnwys archwilio traed y defaid yn rheolaidd. Hefyd gall olygu naddu carnau yn rheolaidd ac yn ofalus, trin y traed heintiedig a dipio'r traed mewn hylif pwrpasol, yn unol ag argymhelliad y gwneuthurwr, a brechu lle bo'n briodol. Os mai clwy'r traed yw prif achos y cloffni neu os bydd triniaethau arferol yn aflwyddiannus, dylech ofyn i'ch milfeddyg am gyngor.

31. Mae naddu carnau yn dechneg anodd. Gallech niweidio'r traed pe baech yn ei wneud yn anghywir neu'n ormodol. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch am gyngor arbenigol.

32. Os nad yw dafad sydd â chloffni cronig yn ymateb i driniaeth y milfeddyg, dylech ei difa yn hytrach na'i gadael i ddioddef. Felly, os na ellir cludo anifail cloff heb beri mwy o boen iddo, dylid ei ladd ar y fferm (gweler paragraff 39). Peidiwch â chludo defaid sydd ddim yn gallu sefyll ar eu traed heb gymorth neu os nad ydynt yn gallu rhoi eu pwysau yn gyfartal ar bedair troed wrth sefyll neu gerdded. Peidiwch â mynd â defaid sy'n gallu rhoi eu pwysau yn gyfartal ar bedair troed ond eu bod ychydig yn gloff i'r farchnad, lladd-dy nac i unman arall os byddai hynny'n debygol o chwerwi'r anaf, hyd yn oed y mymryn lleiaf. Dylech yn hytrach gadw'r ddafad ar y fferm i wella neu dylech ofyn i filfeddyg am gyngor.

Parasitiaid allanol

33. Pan fydd parasitiaid allanol megis y rhai sy'n achosi'r clafr neu lau, trogod neu gynrhon, yn debygol o daro, dylai defaid gael eu diogelu trwy eu dipio neu drwy ddefnyddio triniaeth gemegol ataliol (dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label).

34. Dim ond dwy driniaeth wahanol (adeg cyhoeddi'r Cod) sydd ar gael ar gyfer rheoli'r clafr; naill ai dipio'r defaid trwy eu plymio mewn pryfladdwr neu eu chwistrellu â pharasitladdwr. Nid yw defnyddio'r cemegau trwy gawod, jet/chwythell neu chwistrell yn effeithiol wrth reoli neu drin y clafr.

35. Pan fydd defaid wedi cael eu heintio gyda pharasitiaid allanol rhaid gwneud y diagnosis cywir a rhoi triniaeth effeithiol yn ddi-oed.

Parasitiaid mewnol

36. Y ffordd orau o reoli parasitiaid mewnol yw trwy reoli lle mae'ch anifeiliaid yn cael pori neu drwy driniaeth anthelmintig ar adegau priodol ar sail cylch bywyd y parasiteit. Dylid gofyn am gyngor milfeddyg neu gynghorydd arbenigol ynglŷn â phryd i drin a sut i osgoi llyngyr sy'n gallu gwrthsefyll triniaeth anthelmintig.

Defaid sâl ac anafus

Mae'n dramgwydd cyffredinol o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda a Lladd) 1995 (OS 1995 rhif 731) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) (Diwygio) (Cymru) 2007 (OS 2461 rhif 208) beri neu ganiatáu cyffro, poen neu ddiodefaint y gellid ei osgoi i anifail wrth ei gigydda neu ei ladd (rheoliad 4(1)). Mae'r tramgwydd cyffredinol yn gymwys ym mhob achos, ond ni fydd angen cymhwyso'r darpariaethau manwl mewn cysylltiad â'r dull cigydda neu ladd pan fydd yn rhaid lladd anifail ar unwaith am resymau argyfwng (rheoliad 13(2)).

Pan gaiff anifail ei gigydda neu ei ladd ar y fferm, rhaid gwneud hyn trwy ddull a ganiateir. Gellid gwneud y canlynol i'r anifail:-

- (a) ei stynio gyda bollt-ddryll, parlysydd bwrw'n anymwybodol neu barlysydd trydan ac yna ei waedu - neu ei bithio - yn ddi-oed (rheoliad 14 ac Atodiadau 5 (Rhan II) a 6). Os ydy'r anifail yn cael ei stynio a'i waedu, dim ond cigyddwr trwyddedig gaiff wneud hynny (Atodiad 1), oni bai bod y perchennog yn cigydda'r anifail at ei ddefnydd ei hun; neu
- (b) ei ladd â bwled rhydd (rheoliad 15 ac Atodiad 5 Rhan III). Dylid lladd yr anifail ag un ergyd yn ei ben.

Mae Erthygl 4 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 (O.S. 1047 rhif 105), yn datgan ei bod

- yn dramwydd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n peri, neu'n debyg o beri, i'r anifail hwnnw gael ei anafu neu ddiodef yn ddiangen

37. Dylai defaid sydd wedi eu hanafu, sy'n clafychu neu o dan ofid gael eu nodi a'u trin yn ddioed. Lle bo'r bugail yn gallu dweud beth yw achos y salwch, dylai weithredu ar unwaith i wella'r anifail. Os bydd unrhyw amheuaeth dylai ofyn i filfeddyg am gyngor cyn gynted ag y bo modd.
38. Dylai fod trefn ar gyfer gwahanu a gofalu am anifeiliaid sy'n sâl neu sydd wedi eu hanafu. Dilynwch y drefn honno pan fo angen. Dylai defaid afiach (sy'n cynnwys anifeiliaid llesg, claf, sâl ac anafus) gael eu cymryd o'r ddiadell.
39. Os nad yw dafad dost/glaf yn ymateb i driniaeth, dylai gael ei difa neu ei lladd ar y fferm yn ddi-boen. **Mae'n drosedd achosi neu ganiatáu dioddefaint diangen trwy adael i ddafad ddiodef.**
40. Mewn argyfwng, efallai y bydd yn rhaid lladd anifail ar unwaith i atal unrhyw ddiodefaint. Mewn achos o'r fath, dylid difa'r anifail yn ddi-boen ac, os yw'n bosibl, dylai hynny gael ei wneud gan rywun profiadol neu sydd wedi'i hyfforddi mewn dulliau lladd ac mewn defnyddio'r cyfarpar.
41. Os ydy'r anifail yn cael ei ladd ar y fferm heb iddi fod yn argyfwng, rhaid defnyddio dull sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynglŷn â lles anifeiliaid wrth eu lladd. Chewch chi ddim claddu na llosgi anifeiliaid marw ar y fferm a rhaid eu gwaredu yn unol â'r rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 (y blwch ar ôl 81).
42. Ni ddylech gludo anifail nad yw'n ffit **oni bai'ch** bod yn ei gludo at filfeddyg ar gyfer triniaeth neu ddiagnosis a hyd yn oed wedyn, dim ond os nad yw'r cludo yn achosi mwy o ddiodefaint diangen i'r anifail. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch pa anifeiliaid sy'n ffit i deithio gan yr Adran Materion Gwledig ac ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Cyfarpar dosio a brechu

43. Dylech sicrhau bod yr holl gyfarpar yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer dosio, trin a brechu'ch anifeiliaid mewn cyflwr da. Yn ddelfrydol, defnyddiwch gyfarpar o'ch fferm eich hunan. Os oes rhaid i chi gael ei fenthyg, gwnewch yn siwr ei fod yn lân ac wedi'i ddiheintio cyn ei ddefnyddio ar eich fferm. Rhaid glanhau a sterileiddio unrhyw gyfarpar yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer chwistrellu, i osgoi heintiadau a chrawniadau. Yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio nodwydd newydd ar gyfer pob anifail. Mae systemau amlnodwydd ar gael ond rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr (defnyddiwch nodwyddau untro o bosibl). Dylai maint trwyn y gwn dosio fod yn addas i faint yr anifail. Dilynwch gyfarwyddiadau gwneuthurwr y cyffur a dylai doswyr gael eu hyfforddi i roi triniaethau - megis chwistrellu neu folysau drwy'r llwnc - oherwydd mae'n hawdd anafu anifail o beidio â'i drin yn iawn.
44. Dylech chi a'ch milfeddyg adolygu'n rheolaidd y meddyginiaethau rydych yn eu cadw ar eich fferm. Am fod gan feddyginiaethau oes silff penodol, ni ddylech gadw mwy o feddyginiaeth nag y gallwch ei defnyddio yn y cyfnod hwnnw. Cofiwch storio meddyginiaethau mewn lle diogel a hawdd mynd ato allan o afael plant ac o gyrraedd

anifeiliaid a golau'r haul. Rhaid cael presgripsiwn ar gyfer rhai meddyginiaethau a rhaid defnyddio'r rheini o dan gyfarwyddyd milfeddyg.

45. Byddwch yn ofalus wrth gael gwared ar gynwysyddion meddyginiaethau; rhowch nodwyddau mewn cynhwysydd diogel. Mae (Bydd) gwastraff milfeddygol a ddefnyddir ar fferm yn cael ei gynnwys yn y Rheoliadau Gwastraff Amaethyddol. Mae'r rhan fwyaf o filfeddygfeydd yn cymryd meddyginiaethau, nodwyddau, hen gynwysyddion a chwistrellau yn ôl.

46. Lle bo'r angen, dylai'r bugail gael hyfforddiant mewn defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer dosio, brechu a thrin.

Clefydau hysbysadwy

47. Os ydych yn credu bod gennych anifail sy'n dioddef o glefyd hysbysadwy, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i hysbysu un o Reolwyr Milfeddygol Rhanbarthol (DVM) y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol cyn gynted â phosibl.

Rheolaeth

Cyffredinol

Mae Atodlen 1, paragraff 17 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan:-

- pan na chedwir anifeiliaid mewn adeiladau, rhaid eu hamddiffyn pan fo angen a phan fo'n bosibl rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd, a rhaid iddynt gael cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

48. Cadwch bob cae ac adeilad yn glir o sbwriel, er enghraifft gwifrau neu blastig a all fod yn niweidiol i ddefaid.

49. Pan fydd defaid allan yn y gaeaf, ac yn arbennig pan fyddant yn cael eu bwydo ar wreiddgnydau, dylent naill ai allu mynd yn ôl i dir pori neu i le gyda gwellt arno sy'n fwy cyffyrddus i orwedd arno ac sydd hefyd yn achosi i lai o fwd a thail gasglu ar y cnu. Lle nad oes cysgod naturiol i'r defaid, darparwch gysgod artiffisial, er enghraifft trwy bentru bêls gwellt.

Adnabod

50. Cafodd rheolau newydd swyddogol ar gyfer adnabod defaid eu cyflwyno ar 31 Rhagfyr 2009. Mae'r rheolau hyn yn rhoi Rheoliad (EU) 21/2004 y Cyngor ar waith sy'n gofyn am dagio'n electronig a chofnodi pob oen sy'n cael ei eni ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae canllawiau manwl wedi'u dosbarthu i bob ceidwad defaid cofrestredig.

51. Ar gyfer wŷn sy'n cael eu geni ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009, rhaid eu hadnabod gydag un o'r opsiynau canlynol:-

- **Dyfais adnabod electronig lawn** - un weladwy ac un electronig.
 - Wŷn sy'n cael eu cadw i fagu neu eu gwerthu i fagu.
- **Llacio'r Rheol Lladd** - tag lladd batsh sengl (confensiynol neu electronig).
 - Os mai'r bwriad yw lladd yr oen ym Mhrydain cyn iddo gyrraedd ei 12 mis oed, gellir ei dagio ag un o'r tagiau lladd hyn. Dim ond 'UK' a rhif y ddiadell sydd wedi'u printio ar du allan y tag lladd.

Dylai ceidwaid drafod pa dagiau y dylent ei ddefnyddio gyda'r rheini sy'n cymryd eu defaid.

Marcio

52. Dylai'r gwaith o roi marc parhaol ar ddafad, er enghraifft trwy datw neu dag ar y clustiau, gael ei wneud gan stocmon crefftus yn unig, gan ddefnyddio offer sydd wedi ei gynnal a'i gadw'n briodol. Dylai tagiau clustiau neu'r ddyfais adnabod electronig (yr EID) fod yn addas i'w ddefnyddio ar ddefaid.

53. Ceisiwch beidio â marcio yn ystod y tymor cynrhoni. Os oes yn rhaid marcio yn ystod y tymor cynrhoni, cymerwch gamau i osgoi neu leihau'r bygythiad o gynrhoni.

54. Os ydych yn marcio clustiau trwy fylchu neu bwnsio at ddibenion rheoli'r ddiadell, dylech ddefnyddio cyfarpar priodol. Os ydych am farcio defaid corniog at ddibenion rheoli'r ddiadell, llosgnodi cynnau yw'r dewis gorau.

55. Dylai erosol neu baent ar gyfer rhoi marciau dros dro fod yn ddiwenwyn.

Trafod a thrin

56. Dylai fod gan bob ffermwr defaid gorlannau effeithlon hawdd eu defnyddio i drin a thrafod defaid, er mwyn gallu eu trafod a'u trin yn rheolaidd. Dylai'r corlannau fod o faint a graddfa sy'n addas i niferoedd y ddiadell. Dylid cadw'r corlannau a'r lloriau mewn cyflwr da heb unrhyw ymylon neu bigynau miniog a allai anafu'r defaid.

57. Pan fydd defaid yn cael eu cludo, dylai fod ar y fferm neu ar y safle gyfleusterau sydd wedi eu cynllunio'n dda ar gyfer eu casglu, eu llwytho a'u dadlwytho.

58. **Ni ddylid** dal defaid gerfydd eu cnu. Dylent gael eu codi a'u cario neu eu hatal trwy roi llaw neu fraich o dan y gwddf (gan afael yng ngwlân y gwddf os oes angen) a rhoi'r fraich arall ar neu o gwmpas y pen ôl. Nid yw **codi neu lusgo** defaid gerfydd eu cnu, cynffon, clustiau, cynnau neu goesau yn dderbyniol. Dylid bod yn ofalus gyda chyrn gan y gallant dorri i ffwrdd os yw'r ddafad yn cael ei thrin yn ddiotal.

59. Gofalwch fod radlau, harneisi, tennynau ac ieuau wedi'u gwneud o ddeunydd addas a'ch bod yn eu gosod ac yn eu haddasu'n briodol rhag anafu neu achosi anghysur. Dylech gadw golwg arnynt yn rheolaidd a pheidiwch â'u defnyddio fwy o amser nag sydd raid. Nid yw clymu gerfydd y cynnau yn dderbyniol.

Cludiant

60. Mae safonau lles uchel ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu cludo yn mynnu:-

- Cerbydau sy'n cael eu cynnal yn dda, wedi eu cynllunio gyda lles anifeiliaid mewn golwg, a
- chael eu trin yn sympathetig gan bersonél cymwys sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.

Dylech sicrhau:-

- fod gan anifeiliaid ddŵr a bwyd a'u bod yn gorffwys am 24 awr cyn dechrau taith;
- bod yr anifeiliaid yn ddigon iach i deithio;
- na fydd y cerbyd sy'n eu cludo (gan gynnwys trelars) yn achosi anaf neu ddiodefaint diangen;
- bod pobl gymwys a hyfforddedig yn llwytho, dadlwytho a chludo'r anifeiliaid;
- bod y cerbydau yn cwrdd â'r rheolau a'u bod yn briodol ar gyfer defaid ac ar gyfer y daith;
- eich bod yn llenwi ac yn cario'r dogfennau cywir;
- eich bod yn cwrdd â'r rheolau glanhau a diheintio.

Dylech	Peidiwch â
Gynllunio'r daith ymlaen llaw, gan osgoi oedi diangen.	Defnyddio gormod o rym i wneud i'r anifeiliaid symud.
Llwytho, cludo a dadlwytho'r anifeiliaid yn dawel heb ruthro.	Rhoi gormod o anifeiliaid yn y cerbyd.
Defnyddio partiswms i rannu'r cerbydau neu i wahanu grwpiau o anifeiliaid, i atal anifeiliaid rhag disgyn neu gael eu hanafu.	Brecio, cyflymu neu fynd rownd corneli yn sydyn os gellir osgoi hynny.
Rhoi digon o le ar y llawr i'r defaid ac uwch eu pennau.	Gadael yr anifeiliaid am gyfnodau hir yn y cerbyd heb roi sylw iddynt.
Defnyddio cerbyd sy'n diogelu anifeiliaid rhag y tywydd ac sydd â chylchrediad effeithiol o aer ffres.	Dadlwytho anifeiliaid oni bai bod person cyfrifol yn gyfrifol amdanynt.
Gyrru'n ofalus gan fod yn ystyriol o'r anifeiliaid.	
Os oes angen, stopio a bwrw golwg ar yr anifeiliaid yn ystod y daith.	

Ffensys a pherthi/gwrychoedd

61. Dylid cadw ffensys a pherthi mewn cyflwr da er mwyn osgoi anafiadau i ddefaid a'u hatal rhag mynd yn sownd. Lle defnyddir unrhyw fath o ffensys rhwylllog, yn arbennig ar gyfer defaid corniog, ac o gwmpas caeau lle mae defaid yn ŵyna, dylid cadw golwg rheolaidd arnynt er mwyn gallu rhyddhau unrhyw anifail sydd wedi ei ddal.

62. Dylid dylunio, gosod, defnyddio a chynnal a chadw ffensys trydan fel nad yw cyffwrdd â nhw yn achosi mwy nag eiliad o anghysur i ddefaid. Ni ddylid defnyddio ffensys rhwylllog trydan ar gyfer defaid corniog.

Cneifio

63. Dylid cneifio pob dafad llawndwf o leiaf unwaith y flwyddyn.

64. Dylai cneifwyr fod yn brofiadol, yn gymwys a dylent fod wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol mewn dulliau cneifio. Dylai cneifwyr amhrofiadol gael eu harolygu gan staff sydd â'r sgiliau priodol. Wrth gneifio, gofalwch nad ydych yn torri croen y ddafad. Os bydd dafad yn cael ei chlwyfo, rhowch driniaeth briodol iddi ar unwaith.

65. Dylai cneifwyr a phob contractwr lanhau a diheintio eu cyfarpar rhwng trin un ddiadell a'r llall rhag lledaenu clefydau.

66. Gwrandewch ar ragolygon y tywydd a defnyddio llochesau rhag i ddefaid sydd newydd gael eu cneifio ddioddef o'r oerfel pa bynnag amser o'r flwyddyn yw hi.

67. Nid yw cneifio yn y gaeaf yn arferiad priodol oni bai bod y defaid yn cael eu cadw o dan do.

68. Ni ddylai defaid sy'n cael eu cneifio a'u cadw dan do yn y gaeaf, gael eu troi allan i bori yn y gwanwyn hyd nes bod y cnu wedi ail dyfu i 15-20 mm o hyd a bod y tywydd yn braf. Os nad oes cysgod naturiol addas ar gael, defnyddiwch ddulliau eraill, er enghraifft bêls gwellt.

Adran 2 - Argymhellion penodol ar gyfer defaid

Anffurfio

Sbaddu

Yn ôl Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (OS 2007/1029) (Cy.96) pan mai'r dull a ddefnyddir yw modrwy rwber neu ddyfais arall i gyfyngu ar lif y gwaed i'r ceillgwd, rhaid cynnal y dechneg ar anifail na fydd yn fwy na 7 diwrnod oed. Pan ddefnyddir dull arall, rhaid rhoi anesthetig os ydy'r anifail yn 3 mis neu fwy.

O dan Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol 1966, fel y'i diwygiwyd, dim ond llawfeddyg milfeddygol gaiff sbaddu oen sydd wedi cyrraedd ei dri mis oed.

69. Rhaid i'r sbaddu gael ei wneud yn unol â'r gyfraith (gweler y blwch isod). Rhaid cael sbaddwr cymwys, hyfforddedig i'w wneud. Unwaith y bydd oen dros dri mis oed, dim ond milfeddyg gaiff ei sbaddu, gan ddefnyddio anesthetig addas. Ni ddylai bugeiliaid sbaddu wŷyn yn llawfeddygol heb yn gyntaf ystyried a gwrthod dulliau eraill, ar ôl trafod gyda'r milfeddyg.
70. Os bydd yr wŷyn benyw a'r wŷyn gwryw yn cael eu cadw ar wahân ar ôl eu diddyfnu, efallai na fydd angen sbaddu. Dylai ffermwyr a bugeiliaid ystyried yn ofalus a oes rhaid sbaddu os caiff yr wŷyn eu pesgi a'u hanfon i'w lladd cyn iddynt aeddfedu'n rhywiol.
71. Ar ôl penderfynu'ch bod am sbaddu'ch wŷyn, dylech gytuno ar hynny gyda'ch milfeddyg fel rhan o gynllun iechyd y fferm. Dylech ond eu sbaddu os ydych am eu cadw ar ôl iddynt aeddfedu'n rhywiol ac nad oes digon o borthiant na phorfa gennych i besgi hyrddod cyfain, a'ch bod am osgoi'r problemau lles sy'n gysylltiedig â rheoli hyrddod cyfain.
72. Peidiwch â sbaddu oen nes bod y berthynas rhyngddo a'i fam wedi sefydlu ac nid cyn bod yr oen yn 24 awr oed.
73. Mae cyffuriau lladd poen yn lleihau effaith y broses ar les yr anifail a dylech eu defnyddio os medrwch. Cyn penderfynu cymryd camau i reoli neu ladd poen, dylech eu trafod gyda'ch milfeddyg.
74. Dylech roi ystyriaeth i'r boen a'r pryder y mae sbaddu yn ei achosi yn ogystal â'r straen a'r stres y mae casglu a thrin yr wŷyn yn eu hachosi, a'r risg posibl o ddal heintiau. Pan fydd wŷyn ifanc iawn yn cael eu casglu ynghyd mewn grwpiau mawr mae gwir risg iddynt gollu'r fam a gall hyn arwain yn y pen draw at lwgu a marwolaeth.

Yn ôl Adran 5 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, mae'n dramgwydd cynnal gweithdrefn ar anifail sy'n golygu amharu ar feinwe sensitif neu adeiladwaith esgyrn yr anifail, ac eithrio at ddiben rhoi triniaeth feddygol. Mae adran 5 yn gwahardd torri pidynnau a thriniaethau eraill ar y pidyn, llifanu dannedd a thagio trwy rewi.

Tocio/Torri cynffonau

Yn ôl Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2008 (OS2008/1029) (Cy.96), caniateir tocio cynffonau wryn cyn belled â bod digon o'r gynffon yn cael ei chadw i guddio llawes goch dafad fenyw neu anws dafad wryw. Hefyd, os y dull a ddefnyddir yw defnyddio modrwy rwber neu ddyfais i gyfyngu ar rediad y gwaed i'r gynffon, ni ellir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed. Pan ddefnyddir dull arall, dylid rhoi anesthetig.

75. Dylai ffermwyr a bugeiliaid ystyried yn ofalus a oes rhaid tocio cynffonau mewn unrhyw ddiadell. Peidiwch â gwneud os gallwch fod yn siwr na fyddai hynny'n arwain at broblemau lles diweddarach oherwydd cynffonau budr a chynrhoni. Os oes yn rhaid torri cynffonau yn ogystal â sbaddu, gwnewch y ddwy driniaeth yr un pryd er mwyn lleihau'r aflonyddu a'r posibilrwydd i'r oen gollir fam ac o achosi pryder i'r anifail.

76. Os ydych wedi penderfynu bod angen tocio cynffonau wryn, dylai'r penderfyniad hwnnw fod wedi ei wneud gyda milfeddyg y fferm fel rhan o gynllun iechyd y fferm.

77. Rhaid torri cynffonau yn unol â'r gyfraith. Dylai'r tociwr fod wedi'i hyfforddi ac yn abl i'w wneud.

78. Llawfeddyg milfeddygol ddylai tocio cynffonau wryn dros 3 mis oed, gan ddefnyddio cyffur lladd poen/anesthetig.

Parlysu â thrydan, fasdoriad ac electrohadffrydiad

Mae Atodlen 1, paragraff 30 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (OS 2001 Rhif 2682 (Cy.223)), yn datgan:-

- Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio cerrynt trydanol ar unrhyw anifail er mwyn ei barlysu.

Mae Deddf Milfeddygon 1966, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Deddf Milfeddygon 1966 (Atodlen 3 Diwygio) 1988 (OS 1988 Rhif 526) yn gwahardd unrhyw un ac eithrio milfeddyg rhag gwneud fasdoriad neu electrohadffrydiad.

79. Mae parlysu defaid â thrydan wedi ei wahardd gan y gyfraith. Dim ond milfeddyg gaiff wneud fasdoriad neu electrohadffrydiad.

Digornio neu ddadimpio

Yn ôl Deddf Milfeddygon 1966, fel y'i diwygiwyd, dim ond milfeddyg all digornio neu ddadimpio dafad, ar wahân i drimio blaen ansensitif corn sy'n tyfu at i mewn, ac a allai achosi poen neu bryder os caiff ei adael heb ei drin.

80. Mae hawl trimio corn sy'n tyfu at i mewn o dan rai amgylchiadau. Dylai defaid corniog, yn arbennig hyrddod, gael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau nad yw blaen y corn neu ran arall ohono yn cyffwrdd â'r wyneb.

Dulliau Bridio

Mae Atodlen 1, paragraff 28 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (OS 2001 Rhif 2682 (Cy.223)) yn datgan:-

- (1) Yn amodol ar is-baragraff (2), rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.
- (2) Ni fydd is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint minimal neu fyrhoedlog, neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn achosi anaf parhaol.

Mae Atodlen 1, paragraff 29 yn datgan na chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles.

81. Mae cyflwr corfforol y famog a rheoli ei maeth cyn hwrdda yn cael effaith amlwg ar ei gallu i gynhyrchu wyau a nifer yr ŵyn a geir. Dylai'r hwrdd hefyd fod mewn cyflwr corfforol priodol. Dylai ffermwyr a bugeiliaid wybod sut mae'r gofal a roddir i ddafad cyn rhoi hwrdd iddi yn dylanwadu ar ei hanghenion tra ei bod yn gyfoen a dylent gynllunio yn unol â hynny.

82. Mae'n bosibl newid amser a phatrwm ŵyna. Os byddwch eisiau manteisio ar hyn, dylech ofyn am gyngor arbenigol. Os newidir dyddiad ŵyna neu os yw maint y dorraid yn cynyddu, dylid rhoi ystyriaeth i'r gofynion arbennig o ran bwyd, llafur a ffactorau eraill cyn ac yn ystod ŵyna, sef yr adegau pan fydd y mamogiaid o dan y mwyaf o bwysau. Yn arbennig, dylai adeilad neu gysgod fod ar gael os bydd ŵyna yn digwydd yn ystod tywydd garw.

83. Dylai unrhyw berson sy'n defnyddio ffrwythloni artiffisial fod yn gymwys a chael hyfforddiant yn y dechneg.

Ffrwythloni laparosgopig

84. Mae ffrwythloni artiffisial laparoscopig yn dechneg lawfeddygol, ac ni chaiff neb ar wahân i filfeddyg ei chynnal.

85. Ni chaiff neb ar wahân i filfeddyg drin mamogiaid â hormonau i gynhyrchu embryonau lluosog a throsglwyddo'r embryo ar ôl hynny. Mae trosglwyddo embryonau, fodd bynnag, yn weithred lawfeddygol a dim ond llawfeddyg milfeddygol gaiff ei chynnal a rhaid rhoi anesthetig.

Defaid cyfoen ac wyna

Yn ôl Rheoliad Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid yr UE 2002, mae'n ofynnol i stoc trig gael eu gwaredu trwy:-

- (a) eu hanfon at iard nacer, helpa gŵn neu safle tebyg;
- (b) llosgi;
- (c) rendro mewn safleoedd wedi'u cymeradwyo.

Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys ar gyfer cael gwared ag wryn marw-anedig neu wryn heb eu geni, yn ogystal â defaid hŷn.

86. Mae rheoli maeth mamogiaid beichiog yn bwysig iawn. Gall sgorio cyflwr a sganio fod yn fuddiol.

87. Dylai mamogiaid cyfoen a mamogiaid sugno gael digon o fwyd fel bod eu hŷn yn datblygu'n iach ac i gynnal iechyd a chyflwr corfforol y famog.

88. Gall sganio fod yn gymorth rheoli gwerthfawr. Ond dim ond ategu hwsmonaeth dda y gall sganio ei wneud. Gall fyth gymryd ei le. Trwy sganio, bydd y bugail yn gallu cadw mamogiaid hysb a mamogiaid sy'n cario un, dau neu dri oen yn grwpiau ar wahân. Trwy gyfuno sganio a sgorio cyflwr, bydd y bugail yn gallu didoli defaid sy'n cario mwy nag un oen a defaid tenau er mwyn gallu rhoi sylw a bwyd arbennig iddynt. Dylid glanhau a diheintio cyfarpar yn briodol rhwng diadellau.

89. Dylech drin dafad sy'n drwm gan oen yn ofalus rhag codi afn arni neu ei hanafu, rhag iddi fwrw oen cyn pryd. Ond os oes angen triniaeth ar ddafad sy'n drwm gan oen, er enghraifft ar gyfer cloffni, dylid rhoi triniaeth briodol iddi cyn gynted â phosibl ac ni ddylid ei gadael heb ei thrin tan ar ôl wyna.

90. Mae llawer o'r mamogiaid a gollir yn marw o gwmpas y cyfnod wyna. Rhaid felly wrth fedrau ac arbenigedd. Gall diffyg profiad arwain at niwed difrifol i'r ddafad wrth geisio ei helpu i wyna. Felly dylai fod gan fugeiliaid y profiad a'r sgiliau angenrheidiol cyn cael bod yn gyfrifol am ddiadell adeg wyna. Lle bo angen, dylent gael hyfforddiant.

91. Dylai bugeiliaid roi sylw arbennig i lendid a hylendid cyfarpar a chorlannau tra bod eu defaid yn gyfoen ac yn wyna. Mae glendid personol yn hanfodol wrth helpu mamogiaid i wyna. Hefyd mae'n bwysig rhoi sylw i lendid a hylendid yn yr ardal wyna ac yn y corlannau a ddefnyddir i drin neu helpu mamogiaid i wyna. Dylid cael digon o lociau wyna sydd yn ddigon mawr, o fewn cyrraedd rhwydd ac ar safle sych wedi ei ddraenio'n dda. Dylid sicrhau bod rac gwair, cafn bwyd, a phwced ddŵr ym mhob corlan. Os yw'r corlannau yn yr awyr agored dylid gorchuddio eu topiau.

92. Dylech wneud popeth posibl i rwystro heintiau rhag crynhoi a lledaenu trwy roi digonedd o sarn/gwellt glân yn y corlannau wyna a'u glanhau'n rheolaidd. Mae'n bwysig iawn eich bod yn symud wyn marw a brych a chael gwared arnyn nhw mewn ffordd addas yn ddiymdroi.
93. Gall fod adegau pan fydd hyd yn oed bugail medrus yn cael problemau wrth helpu mamog i eni oen ar ei ben ei hun. Mewn achosion o'r fath, dylid gofyn am gymorth ar unwaith.
94. Dylai unrhyw famog sydd wedi bwrw'r llawes gael triniaeth ar unwaith gan ddefnyddio dull priodol a dylid gofyn am gyngor milfeddyg lle bo'r angen.
95. Dylai bugeiliaid allu adnabod wyn sydd angen eu hadfywio a dylent fod yn gyfarwydd â dulliau adfywio a chymhorthion goroesi megis bwydo trwy diwb stumog a defnyddio blwch cynhesu. Mae llyfryn DEFRA ynglŷn â helpu wyn i oroesi yn rhoi rhagor o wybodaeth (gweler yr Atodiad).
96. Mae'n rhaid i bob oen newydd ei eni gael laeth tor (blaenlaeth) oddi wrth ei fam, neu o ffynhonnell arall, cyn gynted ag y bo modd a beth bynnag o fewn tair awr ar ôl cael ei eni. Dylai cyflenwadau digonol o laeth tor fod ar gael bob amser i'w defnyddio mewn argyfwng, pan fydd mamog heb lawer o laeth yn wyna.
97. Dylai ffynhonnell gwres (er enghraifft blwch cynhesu) fod ar gael i adfywio wyn gwan ond dylid bod yn ofalus i beidio â'u gorboethi.
98. Lle bydd wyna yn digwydd yn yr awyr agored dylai rhyw fath o gysgod neu atalfawynt fod ar gael.
99. Galwch leihau'r broblem o wyn yn colli'u mam trwy gadw'r grŵp mor fychan â phosib. Mae oen yn fwy tebygol o golli'i fam pan fydd defaid yn wyna dan-do, pan fydd defaid ag wyn yn cael porthiant a phorfa atodol, wrth grynhoi defaid ac wyn ac wrth eu trin, eu cludo a'u dipio. Mae nodi wyn a'u mamau o fantais hefyd, gan ddefnyddio naill ai cotiau plastig wedi'u rhifo neu farcwyr lliw diwenwyn.
100. Lle bynnag bo'n bosib, ni ddylid gwerthu wyn ifanc yn y farchnad, oni bai eu bod gyda'u mamau. Dylech geisio trosglwyddo wyn amddifad o fferm i fferm yn hytrach na thrwy'r farchnad, er mwyn lleihau'r risg o glefydau. Mae'r gyfraith yn gwahardd cludo a gwerthu wyn yn y farchnad sydd â bogail heb wella.

Rheoli Mamogiaid Mynydd ar Borfa Arw

101. Dylech asesu faint o faeth sydd ei angen ar famogiaid mynydd sy'n cael eu gaeafu yn yr awyr agored ar borfeydd garw a'i gymharu â'r hyn sydd ar gael iddynt ar y borfa. Os nad oes digon o borfa neu os nad yw o ansawdd digon da i gynnal nifer y defaid yn y stoc, bydd hyn yn arwain at orbori. Gall hyn arwain at dorri'r rheolau trawsgydymffurio. Os nad yw'r borfa yn gallu eu cynnal heb iddynt ddiodef, dylid rhoi bwyd atodol iddynt heb niweidio'r amgylchedd.

102. Rhaid cynllunio'n ofalus cyn rhoi porfwyd ychwanegol gan y gall amharu ar ymddygiad pori naturiol y defaid. Mae gwair yn well dewis na silwair gan y bydd unrhyw fwyd a gaiff ei wrthod yn achosi llai o niwed amgylcheddol a bydd ei gludo yn creu llai o rigolau ar y tir pori.

103. Wrth roi dwysfwyd iddynt, gofalgwch fod pob anifail yn gallu mynd at y bwyd a bwyta yr un pryd. Dylai blociau bwyd a mannau bwyd hylif gael eu gwasgaru ar draws y tir pori gyda thri man bwyd ar gyfer pob 100 o famogiaid.

104. Bydd sgorio cyflwr a sganio defaid cyfoen yn golygu y gellir symud mamogiaid sy'n cario gefeilliaid a mamogiaid sydd mewn cyflwr gwael i grŵp rheoli ar wahân. Dylent gael mynd at dir pori o well ansawdd ynghyd â chael bwyd atodol lle bo hynny'n briodol i ddiwallu eu hangen am fwy o faeth. Mae angen mwy fyth o faeth ar famog ar ôl iddi wyna. Nid yw'n debygol y bydd tir pori garw yn rhoi digon o fwyd i ddigoni mamogiaid yn y cyfnod llaetha cynnar oni bai eu bod yn cael dwysfwyd ychwanegol.

105. Os oes angen bwyd atodol am gyfnodau hir am nad oes digon o borfa neu oherwydd tywydd gwael, dylid ailasesu'r gyfradd stocio yn gyffredinol ac ailasesu addasrwydd porfeydd mynydd ar gyfer defaid sydd allan yn ystod y gaeaf.

106. Os ydych yn derbyn taliadau oddi wrth gynllun amaeth-amgylcheddol dylech wybod am unrhyw gyfyngiadau y mae eich cytundeb yn ei osod ar safleoedd bwydo yn y gaeaf.

107. Dylid nodi mai hawl pori yn unig yw'r hawl i bori ar dir comin ac nad yw'n rhoi unrhyw hawl i roi porthiant atodol, ac eithrio pan fo'r tywydd yn eithafol a hynny er lles y da byw.

Magu wŷn swci/llywaeth

108. Mae magu wŷn swci/wŷn llywaeth yn llwyddiannus yn golygu rhoi sylw manwl a chynnal safonau uchel o ran goruchwyliaeth a gofal. Mae'n rhaid i bob oen ddechrau gyda chyflenwad digonol o laeth tor.

109. Dylai pob oen gael digon o fwyd hylif addas, megis llaeth ffug, ar adegau rheolaidd bob dydd. Ni ddylid ei ddiddynfnu nes bod yr oen yn gallu bwyta digon o fwyd. Bydd cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr yn rhoi manylion am y maint a argymhellir.

110. O'r ail wythnos ar ôl iddynt gael eu geni, dylai ŵyn hefyd gael at fwyd caled maethlon a blasus (gall gynnwys porfa) a dylai fod dŵr ffres, glân o fewn eu cyrraedd bob amser.

111. Lle bydd cyfarpar bwydo awtomatig wedi ei ddarparu, dylid hyfforddi ŵyn i'w ddefnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o fwyd yn rheolaidd. Dylid gwirio'r cyfarpar bob dydd i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn.

112. Dylid cadw cafnau yn lân a chael gwared ar unrhyw hen fwyd. Rhaid cynnal a chadw systemau bwydo awtomatig yn dda a'u gwirio bob dydd. Dylid glanhau cyfarpar ac offer a ddefnyddir ar gyfer bwyd hylif yn aml a'u diheintio'n drwyadl.

113. Dylid darparu gwely sych ac awyriad digonol heb ddrafftiau.

114. Lle bo'r angen, dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwres atodol diogel ar gyfer ŵyn ifanc iawn.

115. Dylai llety addas fod ar gael ar gyfer ŵyn sâl neu ŵyn sydd wedi eu hanafu. Dylai'r lle hwn fod wedi ei ynysu rhag da byw eraill.

116. Nes eu bod yn cael eu diddynfnu, dylid cadw ŵyn, sy'n cael eu cadw dan do, mewn grwpiau bach fel y gellir eu harchwilio'n rhwydd ac i'w hamddiffyn rhag clefydau.

117. Lle bydd ŵyn ifanc yn cael eu magu ar dir pori heb eu mamau, dylid gofalu bod ganddynt ddigon o gysgod.

Adeiladau

Cyffredinol

Mae Atodlen 1, paragraff 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan, pan gedwir unrhyw anifeiliaid (heblaw dofednod) mewn adeilad:-

- rhaid iddynt gael eu cadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd i fan gorwedd, sydd naill ai â gwasarn sych wedi'i gynnal yn dda neu sydd wedi'i draenio'n dda; ac

yn ôl Atodlen 1, paragraff 6:-

- pan fo'n angenrheidiol, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas, gyda gwasarn cysurus a sych pan fo'n briodol.

Mae Atodlen 1, paragraff 9 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan:-

- Gan roi sylw i'w rhywogaeth ac yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol, rhaid peidio â chyfyngu ar ryddid anifeiliaid i symud mewn unrhyw ffordd a fydd yn peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

Mae Atodlen 1, paragraff 10 yn datgan pan fo anifeiliaid yn cael eu clymu neu eu caethiwo yn ddi-dor neu'n rheolaidd, rhaid caniatáu lle priodol iddynt ar gyfer eu hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol.

118. Gall cadw defaid mewn adeilad yn y gaeaf wella eu lles ond gall problemau clefyd a lles godi pan gedwir niferoedd mawr gyda'i gilydd a dylid gofyn am gyngor ynglŷn â dylunio, adeiladu neu addasu adeiladau. Mae awyriad digonol heb ddrafftiau yn bwysig iawn, yn ogystal â darparu digon o le ar gyfer cafnau a lle gorwedd.

119. Mwy'n y byd o gyfyngiadau a osodir ar ddafad trwy systemau adeiladau, lleia'n y byd y bydd yn gallu ymddwyn yn reddfol i osgoi effeithiau amgylchiadau annymunol anochel. Mae'n rhaid i ddefaid dan do gael sylw cydwybodol parhaus staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda am anghenion maeth ac amgylcheddol defaid.

120. Pan newidir systemau hwsmona defaid, gan gynnwys gosod cyfarpar mwy cymhleth neu fanwl, dylid ystyried lles yr anifeiliaid a'r angen i hyfforddi'r bugail.

121. Dylid darparu arwyneb sych, glân a chyfforddus o dan draed er mwyn lleihau problemau hylendid neu gloffni. Mae darparu sarn (gwellt) ffres yn rheolaidd yn arbennig o bwysig amser wyna.

122. Pan fydd y defaid yn cael eu rhoi mewn adeilad am y tro cyntaf, dylent fod yn sych ac yn rhydd o glwy'r traed neu CODD. Dylai defaid sydd â chlwy'r traed neu CODD gael eu gwahanu a'u trin ar unwaith rhag i'r broblem ledaenu trwy'r ddiadell.

Awyru

Mae Atodlen 1, paragraff 13 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan bod cylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder cymharol aer a chrynodiadau nwy yn cael eu cadw o fewn terfynau sydd ddim yn niweidiol i'r anifeiliaid.

123. Mae awyru adeiladau yn effeithiol yn hanfodol (er mwyn osgoi lleithder, anwedd a drafftiau), gan fod defaid yn arbennig o agored i glefydau anadlu. Bydd system awyru effeithiol yn cylchredeg aer uwchben y defaid ac yn atal drafftiau ar lefel y defaid.

Adeiladau a chyfarpar

Mae Atodlen 1, paragraffau 11 a 12 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)), yn datgan:-

- rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir ar gyfer adeiladu llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gyffyrddiad â nhw, beidio â bod yn niweidiol i'r anifeiliaid a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr;
- rhaid i'r llety a'r ffitiadau a ddefnyddir i ddiogelu'r anifeiliaid fod wedi eu hadeiladu a'u cynnal fel nad oes unrhyw ymylon nac allwthiadau miniog sy'n debygol o achosi anaf i anifail.

124. Mae'r gyfraith yn gosod safonau gofynnol ar gyfer cadw defaid mewn adeiladau.

125. Dylai wynebau mewnol adeiladau a chorlannau fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau y mae modd i chi eu glanhau a'u diheintio, a'u trwsio yn rhydd yn ôl yr angen.

126. Ni ddylid trin yr arwynebau gyda phaent neu gadwolion coed, gan y gall y rhain achosi salwch neu farwolaeth. Mae perygl y gallai fod gwenwyn plwm mewn hen baent, yn enwedig mewn deunydd adeiladu ail law.

127. Dylid cynllunio, adeiladu a chynnal a chadw pob llawr er mwyn osgoi anghysur, straen neu anaf i'r defaid. Mae'n rhaid cynnal a chadw'r lloriau yn rheolaidd.

128. Dylai lloriau solet fod wedi eu draenio'n dda a dylid darparu sarn/gwellt sych i'r defaid.

129. Peidiwch â rhoi wŷyn ifanc ac wŷyn newydd anedig ar loriau slatiog oni bai bod sarn addas wedi ei ddarparu hefyd.

130. Gofalwch fod powlenni a chafnau dŵr wedi'u llunio a'u lleoli fel ei bod yn anodd eu baeddu ac fel na fydd y dŵr yn rhewi mewn tywydd oer. Dylid eu cadw'n gwbl lân a'u harchwilio o leiaf unwaith y dydd ac yn amlach mewn tywydd drwg iawn, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio.

131. Gofalwch na all ŵyn bach gwmpo i mewn i gafnau a boddi.

132. Pan fydd defaid sy'n cael dwysfwyd yn cael eu bwydo gyda'i gilydd, mae'n bwysig sicrhau bod digon o le yn y cafnau i'r defaid allu bwydo heb gystadlu ac ymladd â'i gilydd. Fel arfer, mae angen oddeutu 30 cm o le yn y cafnau ar gyfer dafad fynydd ac oddeutu 45 cm ar gyfer y famog fwyaf llawr gwlad. Mae gormod o gystadlu yn niweidiol i les y defaid.

133. Wrth fwydo gwair a silwair *ad lib*, dylid darparu rhwng 10-12 cm o le yn y cafnau ar gyfer pob mamog, gan ddibynnu ar eu maint. Dylai rheseli a'r cafnau gael eu lleoli a'u cynllunio i osgoi achosi anafiadau, anghysur a niwed i'r defaid.

Goleuo

Lle cedwir anifeiliaid mewn adeilad, mae'n ofynnol yn ôl Atodlen 1, paragraff 3 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (OS. 2007 Rhif 3070 (Cy.264)), bod golau digonol (boed yn sefydlog neu'n gludadwy) ar gael i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

Mae Atodlen 1, paragraffau 14-16 yn datgan:-

- rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau beidio â chael eu cadw mewn tywyllwch parhaol;
- pan nad yw'r golau naturiol sydd ar gael mewn adeilad yn ddigonol i ddiwallu anghenion ffisiolegol ac etholegol unrhyw anifeiliaid a gedwir ynddo, rhaid darparu golau artiffisial priodol;
- rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys rhag golau artiffisial.

134. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod golau sefydlog neu gludadwy ar gael ar gyfer archwilio anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau yn rheolaidd ar unrhyw adeg.

135. Yn ystod oriau'r dydd, dylai lefel y golau yn yr adeilad, boed yn olau naturiol neu artiffisial, fod yn ddigon i'r bugail allu gweld pob un o'r defaid a gedwir yno yn glir.

Gofod a ganiateir

136. Dylai'r gofod a ganiateir ar gyfer pob dafad a grŵp o ddefaid a gedwir mewn adeilad ddibynnu ar oed, maint a dosbarth y da byw. Dyma rai enghreifftiau o'r arferion da presennol, lle bo system awyru effeithiol a digon o sarn/gwellt dan do:-

Categori'r Ddafad	Gofod a ganiateir
a. Mamogiaid llawr gwlad (60 - 90 kg pwysau'n fyw).	Llawr o 1.2 -1.4 m ² y famog gyfoen.
b. Mamogiaid llawr gwlad ar ôl wyna gydag wŷn wrth droed hyd at 6 wythnos oed.	Llawr o 2.0 - 2.2 m ² y famog ac wŷn.
c. Mamogiaid mynydd (45-65 kg pwysau'n fyw).	Llawr o 1.0-1.2 m ² y famog gyfoen.
d. Mamogiaid mynydd ar ôl wyna, gydag wŷn wrth droed, hyd at 6 wythnos oed.	Llawr o 1.8 - 2.0 m ² y famog ac wŷn.
e. Wŷn hyd at 12 wythnos oed.	Llawr o 0.5 - 0.6 m ² yr oen.
f. Wŷn a defaid 12 wythnos hyd at 12 mis oed.	Llawr o 0.75 - 0.9 m ² yr oen/dafad.
g. Hyrddod.	1.5 - 2.0 m ² .

Defaid wedi eu cneifio

Gellir gostwng y gofod a ganiateir 10% ar gyfer defaid sydd wedi eu cneifio yn y gaeaf. Ond **ni** ddylid gwneud unrhyw ostyngiad cyfatebol mewn perthynas â maint y lle a ganiateir ar gyfer cafnau - gweler paragraffau 112 a 113 uchod.

Maint y grŵp

Lle bo modd, dylid cadw mamogiaid beichiog mewn grwpiau o lai na 50 fel y gellir adnabod yr unigolion yn well a rhoi gwell sylw adeg wyna.

Cyfarpar a gwasanaethau mecanyddol

Mae Atodlen 1, paragraff 18 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2001 Rhif 3070 (Cy.264)) yn datgan bod yn rhaid archwilio pob cyfarpar mecanyddol neu gyfarpar sydd wedi ei awtomeiddio sy'n hanfodol i iechyd a lles anifeiliaid o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw nam arno.

Mae Atodlen 1, paragraff 19 yn datgan lle bo nam yn cael ei ddarganfod mewn cyfarpar mecanyddol neu gyfarpar sydd wedi ei awtomeiddio o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18 o Atodlen 1, rhaid ei gywiro ar unwaith, neu os bydd hyn yn amhosib, bydd camau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid nes bydd diffygion o'r fath yn cael eu cywiro gan gynnwys defnyddio dulliau eraill o fwydo a dyfrio a dulliau o ddarparu a chynnal a chadw amgylchedd boddhaol.

Dylid ymgyswrtio â'r rheoliadau os defnyddir systemau awtomeiddio mewn sied ddefaid.

137. Dylai'r holl gyfarpar a gwasanaethau gan gynnwys powlenni dŵr a chafnau, cyfarpar awyru, unedau gwresogi a goleuo, peiriannau godro, diffoddwyr tân a systemau larwm gael eu glanhau a'u harchwilio'n rheolaidd a'u cadw mewn cyflwr da.

138. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith (gweler y blwch cyn paragraff 124) bod yr holl gyfarpar awtomatig a ddefnyddir mewn systemau dwys yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan y bugail, neu berson gymwys arall, o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes diffyg. Rhaid i unrhyw ddiffyg gael ei gywiro ar unwaith.

139. Ni ddylai gosodiadau trydanol sydd ar foltedd y prif gyflenwad fod o fewn cyrraedd defaid, dylent fod wedi eu hinsiwleiddio'n dda, eu diogelu rhag llygod mawr a dylent fod wedi eu daearu'n briodol.

Cynllun wrth gefn

140. Mae dyletswydd ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid fferm i ofalu am eu hanifeiliaid bob amser ac maen nhw'n cael eu hannog i gadw at y safonau hwsmona gorau posibl. Dylai fod gan bob perchennog gynllun wrth gefn ar gyfer digwyddiadau a allai effeithio ar ei anifeiliaid. Dylai ofalu bod rhywun profiadol neu gymwys ar gael i gymryd ei le i archwilio, bwydo, dyfrio a darparu cysgod i'w anifeiliaid.

Tân ac argyfyngau eraill

141. Dylai ffermwyr wneud cynlluniau ymlaen llaw i ddelio ag argyfyngau megis tân, llifogydd neu amhariad mewn cyflenwadau a dylent sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y camau priodol i'w cymryd mewn argyfwng.

142. Mae'n bwysig cael cyngor dylunio wrth adeiladu neu addasu adeilad. Dylid medru rhyddhau da byw a'u cael allan o'r adeilad yn gyflym os oes argyfwng, er enghraifft, drwy gael drysau a chlwydi sy'n agor at allan. Dylech ystyried gosod larymau tân y bydd rhywun yn gallu eu clywed ac ymateb iddynt ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.

143. Os cedwir defaid mewn adeilad, dylai'r ffermwr a'r holl staff wybod am y rhagofalon tân fel mater o flaenoriaeth.

144. Mae cyngor arbenigol ar holl ragofalon tân ar gael gan swyddogion atal tân lleol ac oddi wrth y Gymdeithas Atal Tân.

Peryglon

Mae Deddf Anifeiliaid 1971 yn gosod mesurau mewn perthynas ag atebolrwydd sifil am ddiogelu da byw rhag cŵn, ac mae'n drosedd yn ôl Deddf (Diogelu Da Byw) Cŵn 1953 gadael i gi aflonyddu ar dda byw.

145. I leihau'r risg i ddefaid gael eu dal mewn eira neu fethu â dod o hyd i loches, dylid cymryd gofal wrth leoli llochesau, llieiniau cysgodi a ffensys.

146. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylid atal defaid rhag casglu mewn lleoedd lle gallent gael eu claddu mewn eira; lle bo modd dylid caniatáu iddynt symud yn naturiol neu eu hel i leoedd diogelach.

147. Dylid symud yr holl ddefaid o leoedd sydd mewn perygl o gael llifogydd.

148. Dylid diogelu ŵyn ifanc, cyn belled ag y bo modd, rhag peryglon megis tywydd gwael, ysglyfaethwyr a ffosydd agored.

149. Mae unrhyw gi yn rhoi defaid mewn perygl posibl a dylid ei gadw dan reolaeth ar dir amaethyddol. Fodd bynnag, gall cŵn defaid sydd wedi eu hyfforddi'n dda fod yn help mawr wrth gasglu a thrin defaid, yn arbennig ar ffermydd mawr. Dylid eu hyfforddi fel nad ydynt yn gafael mewn defaid. Dylid edrych ar ôl y cŵn defaid yn dda a'u cadw mewn iechyd da. Dylid rhoi tabledi llyngyr iddynt yn rheolaidd er mwyn cael gwared ag endoparasitiaid.

Defaid Godro

Rheolaeth

150. Fel arfer, mae gan ddiadellau defaid godro system ddwysach o hwsmonaeth na diadell gonfensiynol a byddant angen stocmonaeth arbennig o wylidwrus i gynnal eu hiechyd a'u lles.

151. Dylai bugeiliaid wybod am broblemau penodol sy'n berthnasol i ddefaid godro a sut i osgoi'r problemau hyn.

152. Mae rhai bridiau o ddefaid godro yn gallu bod yn arbennig o agored i broblemau traed a gall y dulliau hwsmonaeth a ddefnyddir i gadw'r defaid waethygu'r problemau hyn. Dylai'r ffyrdd, a'r mynedfeydd i mewn ac allan o adeiladau a chaeau gael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u cadw mor lân â phosibl.

153. Dylid rhoi triniaethau rheolaidd i atal problemau traed ond dylid gofalu bod unrhyw feddyginiaethau a ddefnyddir yn cael eu hatal am gyfnodau, yn arbennig yn ystod y cyfnod llaetha. Mae ymdrechion i gael gwared â chlwy'r traed neu CODD yn ystod y cyfnod sychu yn arbennig o bwysig.

154. Mae defaid godro yn naturiol yn cynhyrchu llawer o laeth ac maent angen sylw arbennig o ran lefel y maeth a ddarperir yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod llaetha.

Dulliau godro

155. Dylid rhoi sylw arbennig i ddulliau godro, addasu cyfarpar godro a hylendid y llaethdy. Dylid godro o leiaf unwaith bob dydd, yn rheolaidd, gan sicrhau nad yw'r mamogiaid yn cael eu gadael gyda chadeiriau/pysiau llawn, chwyddedig.

156. Cyn ac ar ôl godro, dylid mabwysiadu mesurau hylendid i ostwng y risg o ledaenu clefydau'r chwarren laeth.

157. Mae arferion godro da yn cynnwys trin a thrafod gofalus, archwilio'r llaeth tor ac osgoi godro'n ormodol.

Parlwr a chyfarpar godro

158. Dylai corlannau, rampiau, parlyrau godro a chyfarpar godro gael eu cynllunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn briodol rhag anafu a phoeni'r anifeiliaid.

159. Mae'n hanfodol sicrhau bod peiriannu godro yn gweithio'n gywir trwy eu cynnal a'u cadw'n briodol a thrwy addasu lefelau'r gwactod a chyfraddau a chymarebau'r pylsador, gan roi sylw i argymhellion y gwneuthurwyr.

Gellir cael copïau o'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim os ydynt ar gael, oddi wrth:-

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa'r Prif Filfeddyg
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Ffôn: 029 20823059

Os hoffech wybodaeth neu gyngor pellach am y Cod hwn, cysylltwch â'r tîm Lles a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid drwy ffonio 029 20823059 neu ewch i www.cymru.gov.uk/llesanifeiliaid neu yn Saesneg: www.wales.gov.uk/animalwelfare